Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Cefneithin Gorslas
# The Portacabin
# Parc Lles Crosshands
# Crosshands
# SA14 6SU

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/01/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas, sydd yn cwrdd mewn caban pwrpasol ym Mharc Hamdden Crosshands, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae’r lleoliad ar agor am bump bore’r wythnos ac wedi’i gofrestru i dderbyn 20 o blant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Mae wyth plentyn yn cael eu hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae rhan fwyaf y plant o gefndir gwyn Prydeinig a daw ychydig o gartrefi sy’n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi tri o ymarferwyr amser llawn, sy’n cynnwys yr arweinydd, ac ymarferydd rhan amser. Penodwyd yr arweinydd i’w swydd ym mis Hydref 2011.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2017 a gan Estyn ym mis Mawrth 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn rhagorol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd ardderchog o'u mannau cychwyn ac yn caffael eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ar draws yr holl feysydd dysgu
- rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau llafar Cymraeg eithriadol
- gan lawer o'r plant fedrau rhifedd ardderchog
- gan lawer o'r plant fedrau meddwl arbennig iawn ac maent yn gwneud penderfyniadau am eu gwaith yn rheolaidd
- gan bron pob un o'r plant fedrau annibynnol campus ac maent yn arddangos lefelau uchel o ymgysylltiad a chymhelliant gwych, wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau
- ymddygiad bron pob plentyn yn ardderchog;
- ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ardderchog er mwyn datblygu'r plant yn ddysgwyr annibynnol hyderus
- y lleoliad yn darparu ystod gyffrous o brofiadau dysgu a gweithgareddau symbylol sy'n tanio chwilfrydedd ac awydd naturiol y plant i ddysgu
- yr ymarferwyr yn llawn cymhelliant a brwdfrydedd ac yn sicrhau bod yr holl blant yn datblygu'n ddysgwyr gweithredol trwy eu herio'n llwyddiannus i wneud cynnydd ac i gyflawni safonau arbennig yn eu gwaith
- gan y lleoliad drefniadau cadarn iawn ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd pob plentyn sydd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr gan yr holl ymarferwyr er mwyn adnabod camau nesaf yn addysg y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn rhagorol oherwydd bod:

- gan yr arweinydd ymrwymedig weledigaeth gadarn sydd yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu o ansawdd rhagorol er mwyn datblygu dysgwyr annibynnol a gwybodus
- gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o'r plant a'r ymarferwyr
- yr arweinyddiaeth yn meithrin ymdeimlad cryf o bwrpas sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn cyflawni eu gwaith o addysgu yn gyson effeithiol
- yr arweinydd yn rhoi pwyslais arbennig iawn ar ddatblygu plant i fod yn siaradwyr Cymraeg huawdl sy'n defnyddio'u medrau'n hyderus ac yn annibynnol ar draws y cwricwlwm
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi gwaith y lleoliad yn llawn ac yn sicrhau llwyddiant y lleoliad fel bod pob plentyn yn cael cyfleoedd cadarn i ddatblygu

- y trefniadau i arfarnu gwaith y lleoliad yn gadarn iawn ac yn seiliedig ar ystod eang a thrylwyr o dystiolaeth uniongyrchol sy'n annog rhanddeiliaid i fyfyrio'n rheolaidd ar gyflawniadau a chynnydd y plant
- arweinwyr yn adnabod y lleoliad a'r plant yn dda iawn ac maent yn defnyddio deilliannau hunanarfarnu yn effeithiol i gynllunio ar gyfer gwelliant
- gan y cynllun datblygu flaenoriaethau clir a thargedau meintiol sy'n rhoi arweiniad cadarn i'r ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n effeithlon at y broses o wella perfformiad y lleoliad

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd mwy rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn yr awyr agored

A2 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli ymhellach wrth fonitro camau gweithredu yn y cynllun datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas yn paratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd ardderchog o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh o safon uchel ac yn eu caffael yn hyderus ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae llawer o blant yn cychwyn yn y lleoliad heb fedrau Cymraeg. Mae'r plant hyn yn gwneud cynnydd cyflym iawn, sydd ymhell uwchben disgwyliadau ar gyfer eu hoed a'u gwaelodlin, wrth ddatblygu'r iaith. Erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau llafar eithriadol ac yn defnyddio ystod eang iawn o eirfa briodol yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd. Maent yn trafod eu hoff ddinosoriaid yn ddeallus gyda phlant eraill ac oedolion, gan ddefnyddio ansoddeiriau aeddfed wrth gyfeirio at faint y brontasor neu siâp y trichorn. Mae llawer o'r plant yn datblygu'n berfformwyr creadigol sy'n hyderus iawn wrth ganu caneuon a rhigymau Cymraeg. Maent yn gartrefol iawn wrth chwarae rôl yn annibynnol trwy gyfrwng yr iaith. Mae tua hanner yn rhoi cyfarwyddiadau clir i blant iau'r lleoliad, er enghraifft wrth eu hatgoffa i gadw offer neu wrth eu cynorthwyo i ddefnyddio'r ffynnon ddŵr heb drochi.

Mae'r mwyafrif wrth eu bodd yn gwrando ar oedolyn yn darllen stori ac yn maent yn trafod gweithgareddau blaenorol yn frwdfrydig am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, maent yn siarad yn greadigol ac yn estynedig am long môr-ladron a'u trysorau drudfawr. Mae ychydig o blant yn datblygu ymwybyddiaeth dda o strwythur stori trwy ragdybio beth fydd yn digwydd i gymeriadau yn y stori a thrwy wahaniaethu rhwng golygfeydd doniol a sefyllfaoedd trist. Mae llawer yn gwybod sut i ddal llyfr yn gywir ac yn mwynhau dewis llyfrau o'u gwirfodd er mwyn ailadrodd stori gyfarwydd i'w cyfoedion. Mae llawer yn adnabod geiriau syml a rhifolion wrth ddarllen stori am 10 dinosor a aeth am dro.

Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer gwneud marciau amrywiol yn annibynnol a chyda rheolaeth gadarn. Mae ychydig yn dechrau sylweddoli bod ysgrifen a thestun yn fodd o gyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth i eraill, er enghraifft wrth ysgrifennu rhestr siopa ar gyfer plentyn arall yn y lleoliad. Mae bron pob un plentyn yn creu llinellau igam ogam a thonnog yn llwyddiannus er mwyn cynllunio llwybr i dywys dinosor tuag at y llosgfynydd. Mae hyn yn cryfhau eu gafael a'u rheolaeth o offer ysgrifennu ac yn datblygu medrau marcio cynnar cadarn iawn.

Mae gan lawer o blant fedrau rhifedd ardderchog. Mae bron pob un yn cyfrif gwrthrychau i 10 yn gywir ac yn adnabod y rhifau'n annibynnol. Mae gan y mwyafrif ymwybyddiaeth dda iawn o siâp ac yn adnabod nodweddion fel seren a sgwâr wrth greu darluniau yn ymwneud â'r thema. Mae'r lleiafrif yn enwi ac yn adnabod siapiau hanner a chwarter cylch yn gywir ac yn eu defnyddio i greu clytweithiau o long môr-leidr a pharot lliwgar. Mae ychydig yn datblygu medrau creu a darllen map arbennig o dda ac yn gwybod bod angen dal map gyda'r gogledd ar i fyny. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir ar lafar ar sut i fynd o un ochr yr ynys i'r llall ynghyd â llunio llwybr er mwyn darganfod y trysor. Mae llawer yn trin ystod eang o offer mathemateg

yn fedrus er mwyn rhifo a dosbarthu gwrthrychau'n gywir gan ddefnyddio iaith fathemategol briodol. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth ddefnyddio termau fel bach a mawr, byr a thal, yn ogystal â thew a thenau, wrth gymharu maint dinosoriaid yn y gornel byd bach neu wrth adeiladu tŵr o frics.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio offer technolegol yn bwrpasol ac yn annibynnol. Maent yn dewis chwarae gyda darganfyddwr metel, llyfrau a phegiau siarad ac yn barod iawn i esbonio i eraill sut mae eu defnyddio'n gywir. Gall y rhan fwyaf reoli tegan electronig yn fedrus, er enghraifft wrth lywio'r siarc yn ofalus o amgylch ynys trysor y môr-ladron. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio offer sydd yn rhan o'u bywydau bob dydd fel til, clorian a chyfrifianellau, wrth chwarae ac mewn tasgau ffocws.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau corfforol cryf. Maent yn symud gydag ystwythder a chydbwysedd da ac yn rhedeg ar gyflymder priodol gan osgoi rhwystrau'n llwyddiannus. Mae llawer yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn gywir. Maent yn oedi, yn ailddechrau ar eu taith ac yn troi i newid cyfeiriad yn rhwydd wrth chwarae gêm ar y cyrtiau tenis cyfagos. Mae rhan fwyaf y plant yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd, er enghraifft wrth adeiladu ogof i'r dinosoriaid neu wrth helpu ei gilydd i ddringo dros offer. Mae gallu'r mwyafrif i drin offer bach fel offer ysgrifennu, sisyrnau, teganau ac offer wrth adeiladu yn dda iawn.

Mae gan lawer o'r plant fedrau meddwl arbennig iawn ac maent yn gwneud penderfyniadau am eu gwaith yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn dewis beth i'w roi yn y gist trysor, pa siapiau dau ddimensiwn i'w defnyddio er mwyn addurno'r dinosoriaid a pha baent sydd orau i greu cefndir ar gyfer eu harddangosfeydd.

### Lles: Rhagorol

Mae gan bron pob un o'r plant fedrau annibynnol campus. Mae hyn yn nodwedd eithriadol o safonau lles y plant ac yn cael dylanwad cryf ar eu gallu i ddefnyddio'u medrau'n hyderus iawn ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un yn arddangos lefelau uchel o ymgysylltiad a chymhelliant gwych wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau. Maent yn mwynhau dod i'r lleoliad, yn ymwybodol iawn o'r drefn ddyddiol, ac yn dangos dyfalbarhad a gwytnwch wrth oresgyn unrhyw anawsterau neu broblemau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyfarwydd â threfn y lleoliad ac awyddus i fynd yn syth at weithgareddau. Wedi iddynt hunan-gofrestru'n ddiffwdan yn y bore, maent yn estyn offer marcio a pheintio heb gymorth oedolyn, yn darganfod eu henw ar gadair ac yn ymgasglu'n drefnus ar gyfer gweithgaredd ar y carped. Mae'r mwyafrif yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau am gyfnod estynedig iawn wrth gwblhau tasg. Er enghraifft, maent yn darganfod trysorau yn y tywod neu'n cyfateb siapiau a rhifau yn yr ardal fathemateg yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan weithredol wrth benderfynu ar y themâu, a'r hyn yr hoffent ei wneud yn y gornel chwarae rôl. Er enghraifft, o ganlyniad i benderfyniad y plant, mae'r tŷ bach twt bellach yn rhan o'r ddarpariaeth barhaus, ac nid yw'n newid o dymor i dymor.

Mae ychydig iawn o'r plant mwy abl yn datblygu ymwybyddiaeth briodol o ba mor dda y maent yn gwneud ac yn dechrau deall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Maen nhw'n dechrau gwneud dewisiadau ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu, er enghraifft wrth ddewis pa ganeuon i'w canu a pha offerynnau i'w defnyddio o'r gornel gerddoriaeth.

Mae ymddygiad bron pob plentyn yn ardderchog. Maent yn gwrtais wrth ryngweithio â'i gilydd ac oedolion, yn ofalus iawn o anghenion eu cyfoedion ac yn awyddus i gynnwys pawb yn y gweithgareddau. Mae medrau cymdeithasol y rhan fwyaf yn datblygu'n dda wrth iddynt weini eu hunain yn ystod amser byrbryd. Mae bron pob un yn diolch i'r ymarferwyr wrth nôl diod, tost a ffrwythau. Mae bron pob plentyn yn rhannu adnoddau'n synhwyrol wrth gyd-chwarae ac yn gwybod bod angen aros eu tro. Maent yn awyddus i helpu eraill i dacluso ac maent yn deall bod hyn yn arwain at ganmoliaeth gan yr ymarferwyr.

Mae gan bron pob plentyn ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Mae bron pob un yn deall pwysigrwydd golchi dwylo ar ôl bod i'r tŷ bach neu os ydynt yn sarnu wrth baentio a chyn bwyta. Mae bron pob un yn gwneud hyn yn annibynnol yn ystod y sesiwn. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig iawn mewn gweithgareddau ar y cyrtiau tenis i'w helpu i gadw'n heini. Maent yn deall bod rhai bwydydd a diodydd yn iachus i'r corff, tra bod eraill yn gallu bod yn niweidiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod gyffrous o brofiadau dysgu, sy'n bodloni anghenion bron pob plentyn yn effeithiol iawn yn unol â gofynion y cyfnod sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn drylwyr er mwyn cefnogi datblygiad medrau'r plant yn gynyddol drwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r gweithgareddau symbylol hyn yn tanio chwilfrydedd ac awydd naturiol y plant i ddysgu ar draws y chwe maes dysgu. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd ardderchog i blant adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol trwy gyfleoedd buddiol i weithio'n annibynnol ac mewn grŵp. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r cyfleoedd rheolaidd iddynt ddewis cyfryngau ac offer dylunio gwahanol er mwyn creu paentiadau a chlytweithiau creadigol. Er nad oes gan y plant fynediad di-dor i weithgareddau tu allan, mae ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus er mwyn rhoi cyfleoedd da iawn i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol ar y tir sydd o amgylch y lleoliad yn ogystal â'r cyrtiau tenis caeedig.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn systematig trwy weithgareddau sydd yn eu herio'n effeithiol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant yn ardderchog ac yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd iddynt ddefnyddio'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r defnydd cyson a wna'r ymarferwyr o siâp a rhif yn ystod gweithgareddau celf. Mae hyn yn arwain at fedrau rhifedd meistrolgar ymysg llawer o blant, ynghyd â safonau mathemateg da iawn.

Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer llythrennedd yn uchelgeisiol iawn, ac yn canolbwyntio'n drwyadl ar gyflwyno'r iaith yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hyder a safonau llafar rhan fwyaf y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ardderchog er mwyn datblygu'r plant yn ddysgwyr annibynnol hyderus. Mae'r cynlluniau'n nodi'n glir pa weithgareddau fydd yn cael eu harwain gan ymarferwyr wrth iddynt gyflwyno ac atgyfnerthu medrau. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng dysgu uniongyrchol a

gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y plant. Un o gryfderau'r lleoliad yw'r modd y mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau parhaus sy'n galluogi plant i ymarfer eu medrau a gwneud penderfyniadau dros eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, mae'r gweithgareddau celf, coginio a chwarae rôl yn cymell y plant yn llwyddiannus i wneud dewisiadau er mwyn datblygu medrau creadigol heb ofni methu neu wneud camgymeriadau.

Caiff y dimensiwn Cymreig le amlwg yng nghwricwlwm a gweithgareddau'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn trefnu eisteddfod flynyddol ar gyfer y plant a'u teuluoedd ac yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i alluogi plant i ddysgu am draddodiadau gwledydd eraill er mwyn parchu ystod o gefndiroedd amlddiwylliannol. Mae'r lleoliad yn cynllunio gweithgareddau difyr am Diwali a Ramadan, er enghraifft. Mae hyn yn helpu'r plant i ddatblygu ymagweddau cadarnhaol tuag at y byd ehangach er mwyn iddynt ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus, goddefol a moesol. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i bob plentyn ddysgu am gynaliadwyedd trwy ailgylchu papur, plastig a bwyd er mwyn iddynt ddatblygu'n aelodau cyfrifol o'r gymdeithas.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i fynd i'r parc lleol yn ogystal â'r llyfrgell a siop goffi yn y pentref. Mae ymwelwyr fel y deintydd, postmon a pherchnogion busnesau lleol yn cryfhau dealltwriaeth y plant yn llwyddiannus o gyfraniad pobl i'w cymdeithas.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr iawn o ofynion y cyfnod sylfaen ac maent yn darparu addysg o safon uchel. Mae pob un ohonynt yn llawn cymhelliant a brwdfrydedd ac yn deall yn dda iawn sut mae plant yn dysgu. Maent wedi'u hymrwymo'n gadarn i'w rôl i sicrhau bod yr holl blant yn datblygu'n ddysgwyr gweithredol sy'n cael eu herio'n llwyddiannus i wneud cynnydd ac i gyflawni safonau arbennig yn eu gwaith.

Cryfder nodedig yr ymarferwyr yw'r modd deallus y maent yn annog plant i weithio heb ormod o fewnbwn gan oedolyn. Er enghraifft, maent yn gadael iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd yn annibynnol wrth chwarae ar ynys y môr-ladron neu wrth ddysgu am nodweddion siapiau dau ddimensiwn yn ystod gweithgareddau celf. Mae hyn yn deillio o'r disgwyliadau uchel sydd gan yr ymarferwyr ar gyfer y plant. Yn ogystal, maent yn gwybod yn dda pryd i hwyluso a chefnogi'r dysgu yn ofalus pan fo angen, er mwyn cynnig profiadau newydd ac atgyfnerthu medrau. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r modd maent yn datblygu dealltwriaeth y plant o fondiau rhif. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol hyderus.

Mae ymarferwyr yn paratoi amcanion dysgu clir ar gyfer pob un o'r plant. Nodwedd ragorol o'r addysgu yw gwybodaeth yr ymarferwyr am allu pob plentyn a'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Mae'r arweinydd wedi sefydlu trefniadau cadarn iawn ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd pob plentyn sydd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan yr holl ymarferwyr er mwyn adnabod camau nesaf yn addysg y plant. Mae hyn yn gosod sylfaen effeithiol iawn sy'n galluogi ymarferwyr i gefnogi pob plentyn trwy holi ac awgrymiadau ymestynnol sy'n adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Mae ymarferwyr yn defnyddio elfennau effeithiol o asesu ar gyfer dysgu yn ystod y

gweithgareddau dyddiol. Maent yn canmol ymdrechion y plant ac yn cynnig adborth llafar adeiladol yn gyson wrth esbonio'n glir beth mae angen i blant ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r ymarferwyr yn safoni gwaith unigol y plant yn ystod cyfarfodydd staff ac mae cysondeb mewn lefelu gwaith plant yn gadarn ar draws y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn gosod pwyslais gwerthfawr ar gywirdeb iaith lafar y plant. Maent yn ymdrechu'n llwyddiannus i ddefnyddio caneuon a rhigymau Cymraeg drwy gydol y sesiynau gan annog y plant i ymuno yn yr hwyl. Maent yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda iawn ac mae hyn yn datblygu medrau llafar y plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau awyrgylch ddysgu lliwgar ac ysgogol iawn o fewn yr ardaloedd dysgu gwahanol. Maent yn dangos parch tuag at waith y plant trwy sicrhau ei fod yn ganolog i'r arddangosfeydd trawiadol. Mae rheolaeth ymddygiad plant yn ardderchog. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau cadarnhaol yn bwrpasol wrth ymateb i sefyllfaoedd o ymddygiad annerbyniol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd iawn â threfn a rheolau'r lleoliad. O ganlyniad, mae hyn yn arwain at amgylchedd tawel sy'n ysgogi amgylchedd gwaith prysur, lle mae'r holl blant yn hapus ac yn cymryd rhan weithredol yn y gweithgareddau.

Defnyddir adnoddau, y tu mewn a'r tu allan, yn ddychmygus i gefnogi a herio'r plant i wella. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac ar gael yn rhwydd, fel eu bod yn dewis a dethol deunyddiau fel bo'r angen. Mae'r ymarferwyr yn ystyried dyheadau a syniadau'r plant yn rheolaidd wrth gynllunio gweithgareddau sy'n eu hannog i wneud penderfyniadau yn llwyddiannus.

Mae rhieni yn derbyn adroddiad manwl am gynnydd a chyflawniadau eu plant yn yr holl feysydd dysgu pan fyddant yn gadael. Mae ymarferwyr ar gael i siarad â rhieni neu ofalwyr i drafod cynnydd eu plant ac er mwyn rhoi arweiniad buddiol iddynt ar sut gallent gyfrannu at eu haddysg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar lle mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel. Caiff pob plentyn ei drin yn deg. Mae ymarferwyr yn groesawgar ac yn parchu'r plant fel unigolion, yn sensitif i'w hanghenion ac yn darparu cyfle cyfartal iddynt ddatblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol. Maent yn annog y plant i ofalu am eu ffrindiau ac i helpu ei gilydd yn effeithiol, yn enwedig wrth fynd ar ymweliadau i'r pentref. Mae'r profiadau hyn, ynghyd ag ymwelwyr i'r lleoliad, yn datblygu ymdeimlad o chwilfrydedd ac yn cyfoethogi dysgu'r plant.

Mae gan y lleoliad weithgareddau dyddiol effeithiol sydd yn datblygu a chynnal syniadau'r plant o gadw'n iach. Mae ymarferwyr yn eu cymell yn fedrus i wneud dewisiadau iach ac i gymryd cyfrifoldeb er mwyn gofalu am eu hunain. Er enghraifft maent yn annog y plant i aros yn amyneddgar iddynt roi eu cotiau ymlaen cyn mynd allan. Maent yn sicrhau dewis iachus o fwyd a darparu mynediad parhaus i ffynnon ddŵr a'r tŷ bach.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth gadarn y plant o'r gwahaniaeth rhwng da drwg. Mae arferion dyddiol amser byrbryd yn cynnig cyfle gwerthfawr i blant ddatblygu medrau cymdeithasol, eu hamynedd a'u cydweithrediad yn briodol. Mae ymarferwyr yn annog y plant i osod y bwrdd ac i gymryd cyfrifoldeb wrth weini

bwyd a thacluso yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith dda iawn ar fedrau annibynnol bron pob un o'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n fanwl er mwyn sicrhau cyfleoedd cyson ar gyfer gweithgareddau ymarfer corff ar y cyrtiau tennis sydd gerllaw. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y plant wedi ei chynllunio'n bwrpasol. Mae gweithgareddau sy'n dathlu gwyliau a thraddodiadau Cymru yn ogystal â Tsieina ac Affrica, yn helpu plant i ddysgu ac i ddeall am y byd y maent yn byw ynddo. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r eisteddfod flynyddol a drefnir sydd yn rhoi cyfleoedd da iawn i'r plant a'u rhieni gystadlu a pherfformio eitemau amrywiol. Mae trefniadau priodol ar waith i blant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu, trwy gompostio bwyd diangen.

Mae gan y lleoliad brosesau addas i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn caffael cefnogaeth arbenigol yn ôl y galw er mwyn bodloni anghenion unigolion yn briodol. Mae gan bob plentyn sy'n derbyn cymorth ychwanegol gynllun addysgol unigol defnyddiol. Mae rhieni'n cael eu cynnwys ym mhob cam o'r ddarpariaeth yn ogystal â'r cyfarfodydd er mwyn adolygu a monitro cynnydd. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn er mwyn adnabod plant mwy abl. Maent yn eu herio'n briodol trwy gynlluniau gwaith sydd wedi eu gwahaniaethu'n dda.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n annog plant i ddatblygu agweddau goddefgar. Mae ethos cynnes a chyfeillgar y lleoliad yn hyrwyddo ymdeimlad o les ac yn parchu gwahaniaethau ac amrywiaeth yr unigolyn yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn ac yn dathlu cyflawniadau a thalentau plant. Maent yn adnabod y plant a'u hunigolrwydd yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o beth all y plant ei wneud ac mae hyn yn cael effaith hynod gadarn ar ddatblygu hunan-barch a hyder pob un plentyn.

Mae'r adeilad o safon briodol, yn lân ac yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd dychmygus o'r gofod y tu mewn er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau plant. Mae arddangosfeydd o ansawdd uchel ac yn dathlu dysgu a chyflawniad y plant yn briodol. Mae'r adnoddau ym mhob ardal o ansawdd da, yn hawdd eu cyrraedd ac yn benodol i oedran y plant. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn effeithiol iawn.

Er nad oes gan y plant fynediad di-dor i ardal ddysgu allanol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r ardaloedd sydd gerllaw'r lleoliad er mwyn datblygu medrau corfforol a medrau meddwl y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio'n ddigon cyson er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ymhellach.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn cael ei reoli'n effeithiol iawn gan arweinydd ymrwymedig. Mae'n sicrhau bod y drefn ddyddiol yn rhedeg yn effeithlon a bod gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn iawn o'u rolau. Mae ganddi weledigaeth gadarn sydd yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu o ansawdd rhagorol er mwyn datblygu dysgwyr annibynnol a gwybodus. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda rhieni a'r gymuned ehangach. O ganlyniad, mae wedi sefydlu lleoliad sy'n rhoi pwyslais arbennig iawn ar ddatblygu plant i fod yn siaradwyr Cymraeg huawdl, sy'n defnyddio'u medrau'n hyderus iawn ar draws y cwricwlwm.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal a chefnogaeth dda iawn ac maent oll yn elwa o amgylchedd dysgu trefnus, ysgogol a hapus. Mae hyn yn golygu bod pob plentyn yn cael cychwyn rhagorol i'w haddysg.

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad cryf o bwrpas. Mae'n trefnu cyfarfodydd staff yn ofalus er mwyn rhannu deilliannau asesu a gwybodaeth gyfredol am ddatblygiadau'r cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn cyflawni eu gwaith o addysgu yn gyson effeithiol. Mae'r arweinyddiaeth yn rhoi sylw manwl i ddatblygu safonau lles y plant yn ogystal â'u medrau rhifedd, llythrennedd a TGCh ar draws yr holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r sylw a roddir i'r agweddau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth ac ar safonau'r plant.

Mae'r dirprwy yn cefnogi gwaith yr arweinydd yn effeithiol. Mae wedi datblygu perthynas agos iawn rhwng y lleoliad a'r rhieni trwy sicrhau ffrwd reolaidd o wybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gweithdrefnau cadarn i werthuso a rheoli perfformiad ymarferwyr. Mae'r trefniadau hyn yn adnabod ac yn cefnogi eu hanghenion hyfforddi yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu'n broffesiynol ac yn rhannu eu profiadau gyda'u cydweithwyr. Mae hyn yn arwain at weithlu gwybodus ac ymroddedig. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r modd y maent wedi rhannu gwybodaeth â'i gilydd yn dilyn hyfforddiant i wella trefniadau asesu gwaith plant. Mae hyn wedi cael effaith dda iawn ar eu gallu i gynllunio'n fwriadus i godi safonau.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cefnogi gwaith y lleoliad yn llawn ac yn wybodus am gryfderau ac ychydig o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae ganddynt ymrwymiad cytûn i sicrhau llwyddiant y lleoliad fel bod pob plentyn yn cael cyfleoedd cadarn i ddatblygu. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn ymwelwyr cyson i'r lleoliad ac yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol er mwyn barnu gwaith ymarferwyr, eu herio a'u cefnogi'n fedrus. O ganlyniad, maent yn gwbl ymwybodol o ymrwymiad yr arweinydd a'r ymarferwyr ac yn gwerthfawrogi'n dda eu hymdrechion.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer hunanarfarnu lle mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda ac yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i'r plant.

Mae'r trefniadau i arfarnu gwaith y lleoliad yn gadarn iawn ac yn seiliedig ar ystod eang a thrylwyr o dystiolaeth uniongyrchol sy'n annog rhanddeiliaid i fyfyrio'n rheolaidd ar gyflawniadau a chynnydd y plant. Mae'r arweinydd yn cynnwys safbwynt ymarferwyr, rhieni, plant ac aelodau o'r pwyllgor rheoli yn rheolaidd fel rhan o'r weithdrefn. Mae ymarferwyr yn gwerthuso eu hymarfer eu hunain yn drylwyr yn wythnosol. Er enghraifft, maent yn ystyried pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad ac yn cynorthwyo'r ymarferwyr i gynllunio gweithgareddau dilynol grymus. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gwella'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer y plant yn gyson. Mae hyn yn arwain at welliannau amlwg mewn safonau cyrhaeddiad a lles plant.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr a chryno, sydd â ffocws cadarn ar werthuso effaith yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth ar safonau plant. Mae'n adroddiad gonest ac yn dystiolaeth bod arweinwyr yn adnabod y lleoliad a'r plant yn dda iawn. O ganlyniad, mae'n cynnig darlun eglur iawn o gryfderau'r lleoliad yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu datblygu.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r deilliannau hunanarfarnu yn effeithiol i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae cyswllt cadarn rhwng y meysydd i'w gwella yn yr hunanarfarniad â thargedau'r cynllun datblygu. Mae gan y cynllun flaenoriaethau clir a thargedau meintiol. Mae'n ddogfen hygyrch sy'n rhoi ystyriaeth lawn i derfynau amser, trefniadau monitro, cyfrifoldebau staff a chostau. Mae hyn yn rhoi arweiniad cadarn i'r ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n effeithiol at y broses o wella perfformiad y lleoliad. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh.

Mae aelodau'r pwyllgor yn ymweld â'r lleoliad yn gyson er mwyn arsylwi gweithgareddau. Maent yn darparu adroddiadau defnyddiol i weddill yr aelodau ac mae'r arweinydd yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r adroddiadau yn llwyddiannus fel rhan o'r broses hunanarfarnu. Mae trefniadau'r pwyllgor rheoli i fonitro camau datblygu yn y cynllun gwella yn dda ond nid ydynt bob tro'n ddigon ffurfiol er mwyn herio'r arweinydd ymhellach a chyfrannu'n llawn at gyfeiriad strategol y lleoliad.

Mae'r gefnogaeth o'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol ac wedi cefnogi'r lleoliad yn dda iawn dros gyfnod o amser sydd wedi arwain at safonau uchel, addysgu effeithiol ac arweinyddiaeth gadarn iawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod addas o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth ac yn cael effaith dda ar safonau a lles y plant. Mae'r berthynas sydd yn bodoli rhwng y rhieni a'r lleoliad yn gynhyrchiol iawn. Mae'r rhieni'n gefnogol iawn ac yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol er mwyn codi arian i brynu adnoddau i'r lleoliad. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod cyfle anffurfiol ar ddiwedd pob sesiwn i gyfnewid

gwybodaeth am ddatblygiad eu plant. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o sut gallent gyfrannu at ddatblygiad eu plant. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn ac yn falch o gael mynediad rhwydd i'r ymarferwyr i drafod unrhyw agwedd o bryder ac i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gyda'r athrawes ymgynghorol a swyddog Mudiad Meithrin sydd yn rhoi cyngor ymarferol ac awgrymiadau buddiol i'r ymarferwyr sydd wedi gwella'r ddarpariaeth barhaus. Mae'r staff yn mynychu hyfforddiant a chyfarfodydd yn rheolaidd ac mae hyn yn eu helpu i ddeall a gweithredu datblygiadau diweddar, fel yr asesiadau gwaelodlin. Mae'r partneriaethau hyn wedi cael effaith gadarnhaol hefyd ar weithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad a gallu'r ymarferwyr i ddatblygu medrau rhifedd y plant.

Mae partneriaethau priodol wedi'u sefydlu gyda'r ysgolion cynradd sydd yn derbyn y plant, er mwyn iddynt gyfarwyddo â'r ysgol ac athrawes y dosbarth derbyn. Erbyn iddynt adael, mae'r plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda lleoliadau eraill yr ardal ac mae ymarferwyr eraill wedi ymweld er mwyn arsylwi arfer dda. Mae'r ymweliadau hyn wedi canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu gallu ymarferwyr i greu amgylchedd ddysgu symbylol yn ogystal â chynllunio'n systematig er mwyn datblygu medrau plant ar draws y meysydd dysgu. Mae partneriaethau cymunedol yn cynnwys ymweliadau i'r llyfrgell, y parc a'r siop goffi ac yn darparu profiadau gwerthfawr i blant. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at eu lles a'u gwybodaeth am bobl sy'n eu helpu.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol gydag asiantaethau addysg arbenigol leol. Mae hyn yn werthfawr pan fydd angen bodloni anghenion dysgu ychwanegol unrhyw blentyn.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r arweinydd yn rheoli'r holl adnoddau a'r cyllid yn effeithlon iawn trwy sicrhau bod gan y lleoliad lefel dda iawn o staff â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae rolau ymarferwyr wedi'u diffinio'n glir ac maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn fel tîm. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd gwerthfawr o fedrau unigol yr ymarferwyr er mwyn diwallu anghenion bron pob plentyn ac yn trefnu hyfforddiant buddiol iddynt er mwyn cyflwyno cwricwlwm cyffrous.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer rheoli perfformiad yn datblygu'n dda. Er eu bod ychydig yn rhy anffurfiol, maent yn adnabod anghenion yr ymarferwyr yn gywir ac mae cysylltiad agos rhwng anghenion hyfforddi a blaenoriaethau'r lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar y cyfnod sylfaen wrth iddynt barhau i adeiladu ar eu medrau personol.

Mae'r arweinydd yn dyrannu cyllid yn briodol yn unol â blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'n cynorthwyo'r pwyllgor rheoli'n briodol i werthuso effaith y gwariant yn ofalus ar safonau a lles plant.

O ystyried ansawdd ardderchog yr addysgu, gofal a chyfarwyddyd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth rhagorol am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |